

Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

Y Celfyddydau Mynegiannol

Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.	Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.	Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.
---	--	--

Iechyd a Lles

Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.	Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.	Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.	Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapiro pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.	Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.
---	---	--	--	---

Y Dyniaethau

Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.	Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgylfred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.	Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.	Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.	Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.
---	--	--	---	--

Ieithoedd, Llythrennedd a Rhifedd

Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.	Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.	Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.	Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.
---	---	---	--

Mathemateg a Rhifedd

Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.	Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.	Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.	Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.
---	--	--	---

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.	Mae meddylfryd dylunio a pheirianeg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.	Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.	Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.	Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.	Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol.
---	---	--	--	---	--